# BWLETIN POLISI CYTÛN

# MAWRTH/EBRILL 2016

## DIWEDD DRAMATIG I'R PEDWERYDD CYNULLIAD

Fe gafwyd diwedd annisgwyl i'r pedwerydd Cynulliad ar ddydd Mercher 16eg Mawrth pan drechwyd yn llwyr un o filiau Llywodraeth Cymru ar y funud olaf. Gan ei bod yn ddiwrnod y Gyllideb yn San Steffan, ni chafwyd y sylw haeddiannol ar y cyfryngau i'r digwyddiadau.

Fe fu dros chwech awr o gyfarfod llawn, yn cychwyn gyda chwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (Jane Hutt AC) a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (Leighton Andrews AC). Roedd yn drafodaeth hwyliog, ac mewn ymateb i Simon Thomas AC (Plaid Cymru) fe gyfeiriodd Mr Andrews at gydweithio fu rhwng ei blaid yntau a Phlaid Cymru er pasio Deddf Llywodraeth Leol Cymru 2015 fel "a cheap date". Roedd ef a Mr Thomas yn chwerthin, er i Mr Thomas ddweud "efallai y dewch chi i ddifaru hynny ymhen ychydig wythnosau".

Aethpwyd ymlaen i drafod y Bargeinion Dinesig, ac yna dadl Cyfnod 4 am Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), mesur a fu'n ddadleuol yn enwedig oherwydd y darpariaethau ynddo i gyfyngu ar y defnydd ar e-sigaréts (dyfeisiau mewnanadlu nicotin neu DMNau) mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru. Dan bwysau'r gwrthbleidiau a rhai o aelodau meinciau cefn Llafur, fe gyfaddawdodd y Llywodraeth ar ei bwriad gwreiddiol i rwystro defnyddio DMNau ymhob man lle y gwaherddir ysmygu tybaco. Yn lle hynny, cyfyngwyd ar y DMNau mewn mannau lle byddai plant yn debygol o fod yn bresennol. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn gwrthwynebu, ond roedd Plaid Cymru wedi caniatáu pleidlais rydd i'w haelodau, gan olygu i'r cymalau hyn gael eu derbyn (o 31-25 pleidlais) gyda chefnogaeth aelodau Llafur a Phlaid Cymru ar 8fed Mawrth. Mater o ffurf fel arfer yw cadarnhau'r cyfan yng Ngham 4. Rhybuddiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, yn erbyn pleidleisio yn erbyn y Bil cyfan oherwydd yr ychydig gymalau hyn, o gofio'r darpariaethau am fferyllfeydd, toiledau cyhoeddus, rheoli tatŵio ac ati a oedd yn gytûn rhwng y pleidiau.

Aeth y Cynulliad yn ei flaen i benodi Comisiynydd Safonau newydd, a thrafod dyfodol y BBC, dyfodol ynni i Gymru a'r gwasanaeth iechyd, cyn i Simon Thomas AC gychwyn y ddadl olaf, am hanes datganoli, gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones yn ymateb. Daeth wedyn cyfnod pleidleisio, ac fe synnwyd y Llywydd, Rosemary Butler AC, gan y pleidleisio ar y Bil Iechyd Cyhoeddus – 26 o blaid a 26 (yn cynnwys holl ACau Plaid Cymru oedd yn bresennol) yn erbyn. Nid oedd ganddi ddewis dan y rheolau ond defnyddio ei phleidlais fwrw yn erbyn, a lladd y mesur. Daeth i'r amlwg wedyn i aelodau Plaid Cymru bleidleisio yn erbyn y Bil oherwydd eu dicter am sylwadau Mr Andrews yn gynharach yn y dydd.

Cafodd Mrs Butler gymaint o syndod fel y bu iddi anghofio galw am yr areithiau cloi gan aelodau a oedd yn ymadael â'r Senedd am y tro olaf, nes iddi gael ei hatgoffa. Clywyd gan Gwenda Thomas AC (Llafur), William Graham AC (Ceidwadwr), Jocelyn Davies AC (Plaid Cymru) – a Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol), er nad yw'n ymddeol (roedd yn siarad yn lle Aled Roberts AC). Roeddynt oll yn falch o fod wedi bod yn rhan o senedd ddeddfwriaethol ddemocrataidd lawn gyntaf Cymru. Wedyn fe gariwyd y byrllysg o'r siambr ac fe ddaeth y pedwerydd Cynulliad i ben.

# ETHOLIADAU 2016

Mae deunydd newydd yn cael ei ychwanegu'n rheolaidd erbyn hyn at wefan etholiadol Cytûn - www.cytun.org.uk/etholiadau2016 Yn ogystal â chanllaw cwta i'r etholiadau ac arweiniad am drefnu cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr, mae yna bapurau briffio ar feysydd polisi allweddol, a dau fideo o hanesion gan weithwyr eglwysig yng Nghymru ac ymatebion gan wleidyddion. Gellir lawrlwytho'r fideos i'w defnyddio wrth addoli neu mewn cyfarfodydd eraill. Rydym wedi uwchlwytho deunydd addoli am nifer o'r pynciau etholiadol – a byddem yn croesawu rhagor – danfoner at ynyr@cytun.org.uk Dilynwch ni ar Twitter @**Cytun_new #CytunElections**. Byddwn yn trydar yn rheolaidd, yn enwedig pan fydd yr ymgyrch yn poethi ar ôl y Pasg.

Ond mae yna le i gyfathrebu mwy traddodiadol hefyd! Rydym yn annog grwpiau Cytûn lleol, mewn partneriaeth gydag eglwysi a mudiadau neu grwpiau ffydd eraill lle bo'n briodol, i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gyda'u hymgeiswyr lleol. Byddem yn annog un neu ddau gyfarfod felly, wedi'u trefnu'n dda, ymhob etholaeth, yn hytrach na chynnal llawer o ddigwyddiadau. Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod o'r fath, e-bostiwch ynyr@cytun.org.uk i ni gael hysbysebu'r manylion ar ein gwefan.

## Gwneud Cymru yn Genedl Groesawgar a Ffyniannus

**Nos Iau, Ebrill 14eg 7.30yh**

**Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

**@HNHWales @OxfamCymru @TCCWales @Welshrefcouncil**

Mae TCC (Trefnu Cymunedol Cymru), a gefnogir gan lawer o eglwysi a mudiadau eraill yng ngogledd Cymru, yn trefnu llwyfan etholiad arbennig, siawns i gymunedau o wahanol lefydd glywed sut mae'r prif bartïon politicaidd yn bwriadu creu Cymru Groesawgar a Ffyniannus. Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio yn dynn ac yn deg, gyda chwestiynau i'r panel ar faterion megis ymfudo, twf economeg, iechyd, addysg a chydraddoldeb. Mynediad am ddim. I sicrhau eich lle archebwch yma os gwelwch yn dda. Am fwy o wybodaeth ewch i www.tcc-wales.org.uk neu ffoniwch 01978 262588. Te a chacen o 7yh.

Gall cyfarfod cyhoeddus gymryd sawl ffurf. Mae Oxfam Cymru yn cynnal **Caffi Ymgeisydd** ym mhob rhanbarth etholiadol yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau yn bwrpasol yn fach er mwyn caniatáu amser i fynd i'r afael â thlodi ac anghyfartaledd economaidd. Dyma gyfle, o bosib, i deimlo'n fwy cyfforddus i gymryd rhan. Dyddiadau'r digwyddiadau sy'n weddill yw:
**Dydd Mercher 30 Mawrth: Y Fenni, 5.30-7.30pm**
**Dydd Sul 3 Ebrill: Caerdydd, 4.30-6.30pm** **Dydd Iau 7 Ebrill: Caerfyrddin, 6-8pm**
Manylion pellach: hrichards@oxfam.org.uk

Roedd llawer o eglwysi a chymunedau ffydd eraill yn bresennol yng **Nghynulliad Atebolrwydd Citizens Cymru** gydag arweinwyr pedair plaid bresennol y Cynulliad yn Tabernacl, Caerdydd ar 17eg Mawrth, lle bu i nifer o grwpiau cymunedol gyflwyno'u hachos gydag arddeliad a gwreiddioldeb. Ymysg y siaradwyr oedd yr Archesgob Barry Morgan (llun ar y chwith) a'r Archesgob George Stack (dde).

Mae rhaglen wleidyddol BBC Wales, **Wales Report**, yn gwahodd pobl i gymryd rhan mewn rhifyn arbennig am yr etholiad. Maent am weld croesdoriad eang o'r gymdeithas yn bresennol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ar Ebrill 27, ar gyfer darllediad byw yn dechrau am 8.30yh. Huw Edwards fydd yn cyflwyno'r drafodaeth rhwng arweinyddion y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru – Llafur, Ceidwadwyr, Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, UKIP a'r Gwyrddion. Bydd angen bod yno erbyn 6yh.
Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Chris Hardy ar 02920 877859 neu'r ffôn mudol allan o oriau - 07398 316805. Gallwch hefyd ebostio ar chris.harding@walesandco.com.

## DAU FIL DRAFFT CYMRU!

Ar 28ain Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn San Steffan adroddiad ar ei waith craffu ar Bil Cymru drafft Llywodraeth y DU, yn nodi problemau sylweddol gyda'r Bil drafft – tebyg i'r hyn a ddywedwyd eisoes gan y Cynulliad, gan Cytûn a chan fudiadau eraill yng Nghymru. Ar 29 Chwefror gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, Stephen Crabb, ddatganiad yn cyhoeddi oedi yn natblygiad y Bil – fel na fydd yn cael ei gyhoeddi tan ar ôl etholiad Cymru - a newid o ran y dull drafftio.

Ar 7fed Mawrth, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru** – i bob pwrpas, Bil Cymru Drafft amgen - ynghyd â Chrynodeb Esboniadol. Mae'r bil amgen yn fil cyfunol, ac felly mae'n ail-ddeddfu llawer o'r hyn sydd yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, er enghraifft, o ran strwythur y Cynulliad.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer newid ar unwaith o fodel pwerau a roddir i fodel pwerau a gedwir yn ôl. Mae'r Crynodeb Esboniadol yn datgan bod y rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn cynnwys y materion hynny sy'n hanfodol i undeb gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y DU**.** Mae'n darparu ar gyfer datganoli yr heddlu, gweinyddiaeth gyfiawnder, cyfraith droseddol, a chyfraith deuluol ar 1af Mawrth 2026**.**

Mae'r bil amgen yn darparu ar gyfer creu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru ar unwaith, i wahanu cyfreithiau Lloegr oddi wrth gyfreithiau yng Nghymru. Pwysleisiodd Mr Crabb ei wrthwynebiad i hyn, ond cyhoeddodd fod gweithgor wedi'i greu - gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus, a Llywodraeth Cymru - i ystyried pa drefniadau penodol fyddai eu hangen i gydnabod anghenion Cymru o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr pan gaiff y model cadw pwerau ei roi ar waith.

Mae'r bil amgen yn darparu ar gyfer rhai cyfyngiadau newydd ar bwerau Senedd Cymru arfaethedig, yn fwyaf arbennig, bydd pwerau Senedd Cymru yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig. Fel yn achos yr Alban, bydd newidiadau yng nghyfraith Lloegr sy'n ddilynol i Ddeddfau Senedd Cymru a wneir ar gyfer Cymru yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU drwy reoliadau.

Bydd Cytûn yn parhau i chwarae rôl canolog yn y trafodaethau am ddyfodol datganoledig Cymru, gyda Swyddfa Cymru a chyda'r pleidiau yn y Cynulliad, yn ystod ac wedi'r etholiad.

# Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL A CHYMRU

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys ymrwymiad penodol i Lywodraeth a Chynulliad Cymru weithredu yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae Llywodraeth San Steffan a etholwyd ym Mai 2015 wedi cyhoeddi ei fwriad i ddileu'r ddeddf honno a chyflwyno yn ei lle *Bil Hawliau a Chyfrifoldebau Prydeinig*. Mae cyhoeddi'r Papur Gwyn am y mater wedi ei ohirio sawl gwaith, ac yn ddiweddar fe ysgrifennodd Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, a Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, i San Steffan yn mynegi gofid y gellid cyhoeddi'r Papur Gwyn yng nghyfnod ymgyrch etholiadol Cymru pan na fyddai modd ymateb yn llawn iddo. Ymateb Michael Gove, y Gweinidog Cyfiawnder, oedd bod y Llywodraeth o hyd wedi ymrwymo i'r newid hwn, ac y byddid yn cyhoeddi'r Papur Gwyn "in due course". Gellir gweld yr ohebiaeth gyfan yma.

Mae'n rhan o gynllun gwaith Cytûn am 2016-17 i fonitro'r sefyllfa hon, gan fod y Ddeddf yn diogelu (ymysg llawer o bethau eraill) rhyddid crefyddol yng Nghymru ac ym Mhrydain.

# FFORDD LINIARU'R M4

Un o gynlluniau mwyaf dadleuol Llywodraeth bresennol Cymru yw hwnnw ar gyfer ffordd liniaru'r M4 i'r de o Gasnewydd, rhwng cyffyrdd 23 a 29 o'r ffordd bresennol.

Ym mis Mawrth, cafodd nifer sylweddol o ddogfennau eu cyhoeddi. Hefyd, trefnwyd deg o arddangosfeydd cyhoeddus**.**

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r prif effeithiau amgylcheddol a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru effaith y ffordd, e.e. o ran yr effaith ar ecoleg a chadwraeth. Mae'r Datganiad Amgylcheddol – Crynodeb Annhechnegol yn rhoi fersiwn fwy hylaw o'r canfyddiadau hyn.

Hefyd, mae ystod o adroddiadau cysylltiedig eraill**,** gan gynnwys adroddiad yn asesu'r cynllun**,** adroddiad datblygu cynaliadwy, asesiad economaidd o'r cynllun ac adroddiad ar ragolygon o ran traffig. Maent yn crynhoi manylion am y llwybr, seilwaith cerdded a beicio, y cyffyrdd, pontydd a strwythurau eraill sydd eu hangen, a'r ffordd y mae'r cynllun yn effeithio ar gysylltedd drwy ffyrdd ymyl.

Mae'r ddogfennaeth yn cynnwys amcangyfrifon cost. Er bod y Prif Weinidog wedi dweud wrth y Cynulliad ar 12 Mai 2015 y byddai'r ffordd liniaru yn costio ymhell o dan £1 biliwn, fe ddywed Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad fod y dogfennau hyn gyda'i gilydd yn awgrymu y bydd cyfanswm y gost yn £1.131 biliwn. Byddai'r prosiect yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o fenthyciad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyllideb drafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n rhagweld y bydd tri chwarter o gostau'r prosiect yn cael ei wario yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Gwahoddir y cyhoedd i ymateb i Lywodraeth Cymru o ran y gorchmynion drafft a'r datganiad amgylcheddol erbyn 4 Mai 2016. Yn dibynnu ar yr ymatebion hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Os ydynt yn gwneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn yr hydref / gaeaf yn 2017. Os byddant yn penderfynu bwrw ymlaen, a heb unrhyw her gyfreithiol bellach**,** disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn y gwanwyn yn 2018, gyda'r ffordd yn agor yn yr hydref yn 2021.

# HELPU I OSGOI NEWID HINSAWDD

Ar 16eg Mawrth, bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Ddyfodol Ynni Craffach i Gymru. Mae'r adroddiad yn benllanw dros 12 mis o waith gan y Pwyllgor, a ddechreuodd gyda thaith ymchwiliol i'r Almaen i weld sut mae'r *Energiwende* yn yr Almaen wedi trawsnewid y tirlun ynni yno.
Y negeseuon allweddol gan y Pwyllgor yw:

Os yw Cymru am gyflawni ei rhwymedigaeth newid yn yr hinsawdd i leihau o leiaf 80% erbyn 2050, mae angen newid y ffordd rydym yn meddwl am ynni; ei gynhyrchu, dosbarthu, storio a'i gadwraeth. Mae'r cytundeb arloesol ar newid yn yr hinsawdd ym Mharis fis Rhagfyr diwethaf yn gosod fframwaith i Gymru gyflymu ei weithredoedd yn y maes hwn, gan gymryd camau gwirioneddol tuag at leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr a gosod y bar yn uchel ar gyfer model ynni newydd.

Mae arweinyddiaeth yn allweddol er mwyn trawsnewid ynni, gyda chyfeiriad polisi clir a sefydlog i baratoi'r ffordd. Mae'n rhaid i'r polisi hwn arwain Cymru at system ynni ddi-garbon, gyda'r nod o gael Cymru mewn sefyllfa lle mae ei holl ffynonellau adnewyddadwy yn bodloni anghenion ynni domestig. Mae cyflenwi ynni lleol i farchnadoedd lleol yn gonglfaen y polisi newydd hwn, ac, er y bydd prosiectau mewnfuddsoddi ar raddfa fwy yn parhau i chwarae rhan o ran darparu diogelwch ynni, rhaid i ddatrysiadau lleol hefyd fod yn amlwg mewn jig-so ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy yn y dyfodol.

Mae'n rhaid mynd i'r afael â chadwraeth ynni a lleihau'r galw. Mae adeiladau newydd a stoc tai presennol yn cynnig cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni.

Cred **Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd** (CCNH) bod ymgysylltu â'r Trydydd sector a chymdeithas sifil yn hollbwysig ar gyfer cyflawni effaith arwyddocaol wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dangosodd adroddiad interim y Sgwrs Genedlaethol ar Y Gymru a Garem, o gylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fod pobl, pan ofynnwyd iddynt pa faterion oedd o'r pwys mwyaf iddynt parthed dyfodol Cymru - wedi rhoi newid hinsawdd a'r amgylchedd naturiol ar ben y rhestr.

Gofynion allweddol CCNH yw:

- Adnabod, a pharhau i annog rôl cymdeithas sifil mewn cychwyn gweithredu lleol, addysg a mentrau sy'n hybu byw mewn dull cyfeillgar i'r hinsawdd.
- Adnabod rôl allweddol y 'negesydd dibynadwy' a chwaraeir gan sefydliadau'r trydydd sector wrth ennyn ymgysylltiad aelodau a buddiolwyr mewn materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ac adnoddau ar gael i hyn barhau.

**Eco Church** yw'r cynllun gwobrau newydd, rhad ac am ddim, ar gyfer eglwysi yng Nghymru a Lloegr sydd am ddangos fod yr efengyl yn newydd da i ddaear Duw. Dan arweiniad A Rocha UK (a ddaeth yn ddiweddar yn aelodau Categori B gyda Cytûn) ar y cyd â Chymorth Cristnogol, Eglwys Loegr, yr Eglwys Fethodistaidd a Tearfund, mae'r cynllun yn gwahodd eglwysi i gwblhau arolwg arlein unigryw er cofnodi yr hyn y maen nhw'n ei wneud i hybu gofal am ddaear Duw yn eu haddoli a'u dysgu, wrth reoli eu hadeiladau a'u tir, yn eu hymwneud â'r gymuned ac â'r byd, ac yn ffordd eu haelodau o fyw. Wrth i eglwysi gyflawni'r gweithredoedd a awgrymir gan yr arolwg maen nhw'n ennill pwyntiau tuag at Wobr Eco Pres, Arian neu Aur.
Darganfyddwch fwy, ac ymunwch â'r 200 bron o eglwysi sydd eisoes wedi cofrestru, yn **www.ecochurch.arocha.org.uk**

# ADDYSG Y TU ALLAN I'R YSGOL

Yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol yn Hydref 2015, fe addawodd David Cameron y byddai Llywodraeth y DU yn deddfu i reoli addysg "ddwys" y tu allan i'r ysgol, ac fe gyfeiriodd yn benodol at addysg grefyddol ei natur. Fe gadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bwriad i weithredu yn y maes yn ei Strategaeth Gwrth-Eithafiaeth.

Mae gwrth-eithafiaeth yn bolisi a weithredir ar lefel San Steffan. Nid yw'r Strategaeth yn manylu am oblygiadau datganoli – ond mae Deddf Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch 2015 wedi gosod cynsail deddfwriaethol lle y gall San Steffan ddeddfu a gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru (a'r gwledydd datganoledig eraill) i weithredu yn y maes.

Cafwyd ymgynghoriad am sut i weithredu yn Lloegr rhwng Tachwedd 2015 a Ionawr 2016, a bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymgynghoriad hi. Braidd yn annelwig mae'r ddogfen o ran esbonio'r cysylltiad rhwng yr hyn a fwriedir a strategaeth gwrth-eithafiaeth San Steffan, a hefyd o ran beth yw ystyr "addysg ddwys" ac i ba raddau y mae addysg o natur grefyddol yn ganolog i'r cysyniad hwn. Mae Cytûn wedi ymateb ar ran ei aelodau, ond fe awgrymir bod pawb sydd ynglŷn â gwaith addysgol gyda ieuenctid a phlant y tu allan i'r ysgol yn cael golwg ar yr ymgynghoriad ac yn ymateb erbyn y dyddiad cau, sef 5ed Ebrill 2016.

## Gweddi dros yr Etholiad

Dduw gwirionedd a doethineb,
Diolchwn am y wlad yr ydym yn byw ynddi,
ac am y rhai hynny yr enillodd eu llafur a'u haberth inni'r hawl i bleidlais gyffedinol
ac i ddewis ein llywodraeth.
Gweddïwn y bydd inni bleidleisio'n ddoeth:
Y gwelwn y tu hwnt i gulni hunan-les,
a chydnabod ein bod yn aelodau o un corff, un gymuned;
Yr ystyriwn effaith ein penderfyniadau ar y rhai mwyaf bregus,
ar ein cymdogion, ac ar y cenedlaethau sydd i ddod;
Ac y bydd i'n dewisiadau hyrwyddo heddwch a chytgord,
gartref ac ymhlith y teulu bydeang o genhedloedd.
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist, trwy'r hwn y carodd Duw y byd gymaint
nes dyfod i'n plith i rannu ein bywyd dynol. **Amen.**

*Carol Wardman, cyf. Gwynn ap Gwilym (yr Eglwys yng Nghymru)*

*Ceir rhagor o ddeunydd addoli ar gyfer yr etholiad yn:*
*http://www.cytun.org.uk/etholiadau2016/deunyddaddoli.html*

## CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

**Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer**
**Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales**
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062
E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk @CytunNew

***Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English***

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Dyddiad cyhoeddi: 24ain Mawrth 2016.
Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar ôl yr etholiad tua diwedd mis Mai.